## P-04-331 Ffilmio a Recordio Cyfarfodydd Cynghorau

### Geiriad y ddeiseb

Galwn ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru i annog Llywodraeth Cymru i'w gwneud yn ddyletswydd statudol ar bob awdurdod lleol yng Nghymru i recordio neu ddarlledu holl gyfarfodydd cynghorau sy'n agored i'r cyhoedd, neu eu ffrydio ar y we, er mwyn bod yn agored a thryloyw. Dylai'r ddyletswydd hon alluogi'r cyhoedd, fel arsyllwyr cyfrifol, i recordio neu ffilmio cyfarfodydd o'r fath heb gael caniatâd o flaen llaw, a rhoi rhwydd hynt iddynt ddefnyddio'r deunyddiau y maent yn eu recordio i ddarparu cyswllt uniongyrchol ac ehangach â'r etholwyr.

### Cefndir

Cynigiwyd y ddeiseb gan Jacqui Thompson a chasglwyd 223 o lofnodion arni.